# Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2018-2021

## RHAN 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd

Allwedd i'r casgliadau –

1. **Heb ei gychwyn** – yr adroddiad heb ei ystyried eto.
2. **Wrthi'n cael ei gynllunio** – cynnal trafodaethau er mwyn penderfynu sut i ymateb i'r argymhellion a chynllunio os/sut i'w gweithredu.
3. **Ar waith** – cytundeb neu gynllun gweithredu yn ei le er mwyn ymateb i'r argymhellion a gwaith wedi dechrau.
4. **Wedi ei gwblhau** – cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei wireddu ond gellir dadlau na wnaiff y gwaith o gyflawni'r argymhellion byth orffen am ei fod yn waith parhaus / neu: mae'r argymhellion wedi eu gwireddu.

**1. Cyngor Gwynedd - Trosolwg a Chraffu - Addas ar Gyfer y Dyfodol?** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Medi 2018
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Datblygu prosesau blaenraglenni craffu ymhellach er mwyn:
   • darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
   • canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac egluro hyn i'r cyhoedd; a
   • sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol, ac egluro hyn i'r cyhoedd, ac ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu

2. Adolygu'r math o gymorth craffu sydd ei angen i alluogi'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.

3. Egluro swyddogaeth aelodau'r pwyllgor craffu a swyddogion mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad gwasanaethau, sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn herio perfformiad gwasanaethau yn briodol ac yn dwyn swyddogion i gyfrif.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Adolygwyd y trefniadau craffu cyn dechrau tymor y cyngor hwn nôl ym mis Mawrth 2017, a chynhaliwyd adolygiad trylwyr o effeithlonrwydd y trefniadau yn ystod 2019/20. Ffurfiwyd gweithgor bychan o aelodau a swyddogion i gynnal yr adolygiad, ac fel rhan o'r gwaith cynhaliwyd gweithdai i ymgynghori gyda'r holl aelodau

etholedig, aelodau'r Fforwm Craffu, gan adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r argymhelliad ar 19 Rhagfyr 2019.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

1. Cynhelir gweithdai blynyddol ar gyfer adnabod blaenraglenni craffu, gan flaenoriaethu'r materion sydd wir angen sylw. Rhoddir cyfle i'r holl aelodau adnabod unrhyw faterion sydd angen eu craffu, ac yna blaenoriaethir y gwaith yn ystod y gweithdai gan sicrhau rhaglen waith synhwyrol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2. Adolygwyd ein trefniadau o ran sicrhau cymorth craffu yn ystod 2019/20 gan sefydlu swydd Ymgynghorydd Craffu ac Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu i gefnogi'r gwaith craffu ar y cyd gyda'r Rheolwr Democratiaeth ac Iaith. Datblygwyd hyfforddiant ar gyfer yr aelodau craffu fel rhan o'r gweithdai a nodwyd uchod, yn ogystal â hyfforddiant penodol ar gyfer darpar Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion craffu wrth gynnal cyfarfodydd rhithiol.

3. Mae cynrychiolwyr o'r pwyllgorau craffu wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd herio perfformiad mewnol ers 2017, ac yn parhau i fynychu o dan drefniadau newydd sydd wedi dod i rym ers haf 2021. Mae'r aelodau craffu yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'r dyletswydd sydd arnynt i herio gwaith swyddogion ac Aelodau Cabinet, ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny gan aelodau o'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith. Mae'r aelodau craffu yn eu tro yn gallu adrodd yn ôl i'r pwyllgorau craffu ar unrhyw faterion o bryder y maent yn credu sydd angen sylw pellach.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

2. **Cyngor Gwynedd - System Gwybodaeth Adnoddau Dynol** - Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2018
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

(i) Sefydlu rhaglen gwireddu buddion ffurfiol er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol.

1. Adolygu opsiynau technoleg o fewn y prosiect:

(i) Gwella mynediad i alluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli'n anghysbell) i ymgysylltu â'r system.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cadw golwg ar fuddion y prosiect er mwyn asesu os yw'r datrysiad yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor. Yn sgil hynny, bwriedir gwneud asesiad o'r farchnad yn y dyfodol agos er mwyn gwneud cymhariaeth top desg o'r hyn mae'r Cyngor yn ei ddatblygu'n fewnol yn erbyn beth sydd ar gael gan ddarparwyr masnachol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae prosiect wedi ei sefydlu ynglŷn â chanfod lefel sgiliau TG staff sy'n gweithio mewn lleoliadau anghysbell er mwyn gweld os ydynt yn gwneud y defnydd gorau o'r System Hunanwasanaeth Staff. Wedi i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, bwriedir llunio rhaglen waith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg o ran sgiliau a hefyd argaeledd cyfarpar.

Casgliad

Ar waith.

**3. Y defnydd o ddata gan Lywodraeth Leol: Cyngor Gwynedd**
Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Mae angen i'r Awdurdod ddatblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data. Felly, mae newid mewn diwylliant ac arweinyddiaeth gryfach mewn perthynas â data yn hanfodol yng Ngwynedd, a bydd yn cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd sy'n trin data fel adnodd allweddol. Bydd hyn yn helpu i ymestyn manteision gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i bob maes gwasanaeth, yn ogystal â helpu i wella tryloywder a democratiaeth.

Bydd diweddaru'r protocolau rhannu data a darparu sesiynau hyfforddi diweddaru, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, yn helpu i sicrhau y bydd rheolwyr y gwasanaeth yn gwybod yr hyn y gallant ei rannu ac ar ba adegau y gallant wneud hynny, ac, felly, yn helpu i osgoi unrhyw achos o ochel rhag risgiau diangen ac anghymesur mewn perthynas â rhannu data.

Dylai'r Awdurdod adeiladu ar y gwaith a wneir gan ei uned ymchwil a dadansoddeg er mwyn adolygu ystod ac ansawdd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan benderfynwyr, ynghyd â'r fformat ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth honno. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu safonau o ran adrodd ar ddata er mwyn sicrhau

bod y data a gyflwynir i'r uwch-swyddog a'r Aelodau Etholedig yn hygyrch, yn hawdd eu deall, ac yn cefnogi'r penderfynwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sydd mor effeithiol â phosibl.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion gwella eu trafod yn y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, a'r mater wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Risg y Cyngor (lefel Llywodraethu): "Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol".

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cafodd Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-26 ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Ionawr 2021. Mae hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn gosod allan cyfeiriad y Cyngor ym maes gwybodaeth dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys y materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Casgliad

Ar waith

4. **Adroddiad Arolygu: Gwasanaethau Gofal yn y Cartref Gwynedd** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Hyfforddiant staff (Rheoliad 16 (2)(a)). Gwelsom fod amlder hyfforddiant y staff yn anghyson ac nid oedd cofnodion hyfforddiant y staff wedi'u diweddaru. Cafodd y syniad o ddarparu lefel gyson a chyfartal o hyfforddiant i'r staff hefyd ei argymell yn yr arolygiad diwethaf. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na datblygiad y staff. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod o'r farn y gellid gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant a chafodd hyn ei gydnabod gan y tîm rheoli.

2. Adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth (Rheoliad 23 (1), (2) a (3)). Gwelsom nad oedd y gwasanaeth wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gwasanaeth ac nid oedd wedi ymgynghori'r â'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth na'u cynrychiolwyr. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth a ddarperir.

3. Mae angen adolygu cynlluniau cyflenwi gwasanaeth ac asesiadau risg mewn modd amserol.

4. Mae angen i'r gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n dogfennu ac yn cofnodi trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â theuluoedd/cynrychiolwyr a'r staff. Bydd hyn yn sicrhau y gellir dilyn llwybr archwilio clir.

5. Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol amserol a chyson ac arfarniad blynyddol, a chadw cofnod cyfredol o'r cyfarfodydd a gynhelir.

6. Mae angen diweddaru taflen wybodaeth y gwasanaeth ac mae angen iddi gynnwys manylion cyswllt cywir AGC.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Mae'r holl faterion yma wedi cael sylw mewn cyfarfodydd mewnol ac yn allanol gyda phartneriaid i drafod cynigion y Prosiect Gofal Cartref. Mae'r cyfarfodydd yma yn parhau ac maent yn cynnwys sgyrsiau un i un gyda darparwyr, sgyrsiau grŵp gyda darparwyr, sgyrsiau gyda staff ac undebau ac wrth gwrs cyflwyniadau i aelodau'r Cyngor ar y prosiect trwy'r Pwyllgor Craffu Gofal a fforymau eraill. Bydd cylch arall o sgyrsiau gyda aelodau ar gynnydd y prosiect yn cael eu cynnal yn ystod Medi/Hydref eleni.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae'r Adran wedi ymateb i'r cyfan o'r argymhellion ar sail ceisio cael datrysiadau tymor byr i wella gwasanaethau. Hefyd, rhoddwyd y flaenoriaeth i ddysgu gwersi a sicrhau bod yr holl faterion sydd angen sylw yn cael eu hystyried yn y Prosiect Gofal Cartref sydd yn ail siapio'r ddarpariaeth gofal cartref a'r model/dull gweithio yn y maes gofal cartref ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Yn anffodus mae sefyllfa Covid-19 wedi cael blaenoriaeth dros y rhaglen waith yma ac erbyn hyn mae'r Adran wedi ail-afael yn y gwaith. Hyderir y bydd y trefniadau newydd yn eu lle erbyn gwanwyn 2022 ac y bydd y deilliannau i drigolion y sir ac wrth gwrs i staff gofal yn cael eu gwireddu bryd hynny. Dylid nodi bod y Prosiect Gofal Cartref yn anelu i gael gwelliannau ar draws yr holl ddarpariaeth boed yn fewnol neu allannol.

<u>Casgliad</u>

Ar waith.

5. **<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Newydd i Gefnogi Pobl Ifanc' – Cyngor Gwynedd</u>** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Medi 2019

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Er ei fod wedi ymateb i farn defnyddwyr gwasanaethau, mae dull y Cyngor yn adweithiol yn bennaf a chaiff ei lywio gan gyd-destun gweithredol sy'n newid – yn benodol, cyfyngiadau ariannol. Mae canfyddiad y Cyngor am fanteision sefydlu model gweithredu sy'n gallu mynd yn fwy neu'n llai mewn ymateb i anghenion yn ymwneud yn bennaf â'i helpu i ymateb yn rhwyddach i bwysau cyllidebol.

2. Roedd ffynonellau data a ddefnyddiwyd i oleuo'r model newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeall anghenion defnyddwyr presennol y gwasanaeth ac ni wnaed rhyw lawer o ddefnydd o ddata i fodelu'r galw ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

3. Mae gan y gwasanaeth symudol sydd wedi'i ailfodelu o'r newydd fwy o allu i fod yn bresennol dros dro yn ôl yr angen a lle y bo angen ac mae ganddo fwy o allu i fod yn fwy dynamig o ran ymateb i faterion cymdeithasol gan helpu i'w hatal rhag gwaethygu.

4. Bydd cynyddu defnydd effeithiol o ddata'n rhoi dealltwriaeth well i'r Cyngor am achosion sylfaenol materion a'r galw ar y gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i feddwl yn ehangach a defnyddio dull mwy cyfannol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal.

5. Ychydig o dystiolaeth sydd i adlewyrchu bod y Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, neu'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ni ddefnyddiodd y Cyngor ddull integredig wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuenctid. Er nad oedd amcanion llesiant y Cyngor a phartneriaid wedi'u cadarnhau pan ddechreuodd y broses ailfodelu, roedd ei ddull adweithiol ei natur, a ysgogwyd gan ystyriaethau ariannol, yn golygu na chafodd blaenoriaethau ehangach eu hystyried yn effeithiol.

6. Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso'i ddull 'sy'n canolbwyntio ar y dinesydd', sef 'Ffordd Gwynedd', wrth roi'r cam ar waith. Fodd bynnag, yn y cam a adolygwyd, ni all y Cyngor ddangos bod 'Ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn llawn. Byddai gwneud hynny'n hwyluso mwy o integreiddio.

7. Er ei fod wedi creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefel weithredol, ni all y Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried sut i weithio'n strategol gyda phartneriaid i gyflawni'r cam. Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.

8. Dywedodd un partner fod newid negyddol wedi bod o ran ymgysylltu â gwasanaeth ieuenctid y Cyngor ar ôl iddo gael ei ailfodelu o'r newydd, gan bod

hynny wedi effeithio'n anffafriol ar amcanion a gweithgareddau ataliol y partner. Eto mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.

9. Mae diffyg neges glir sy'n datgan y bwriad i gau'r holl glybiau ieuenctid presennol yn y fideo 'Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd ar gyfer Yfory' yn wendid allweddol o ran sut y gwnaeth y Cyngor gyfleu newidiadau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Tachwedd 2019 nodwyd bod y Cyngor wedi nodi dymuniad i geisio trafodaeth bellach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gasgliadau a chynigion gwella archwiliad y Gwasanaeth Ieuenctid. Gweler cofnod y Cyngor Llawn dyddiedig 3ydd Hydref 2019.

Cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd ar ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 23 Ionawr 2020. Nid oedd yr adroddiad hwnnw yn cyfeirio at yr argymhellion gwella gan fod y drafodaeth gyda'r Swyddfa Archwilio yn parhau.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cytunodd Archwilio Cymru i gynnal adolygiad dilynol o weithredu'r model gwasanaeth ieuenctid newydd, fel ymateb i bryderon y Cyngor llawn fod eu adroddiad gwreiddiol heb gymryd ystyriaeth o ansawdd y model ieuenctid newydd.

Bwriadwyd cwblhau'r adolygiad yn ystod 2020-21 ond oherwydd argyfwng Covid-19 mae'r gwaith wedi ei ohirio. Cytunwyd ar friff i'r adolygiad ym mis Ionawr 2021 ond mae amserlen i'w gwblhau eto i'w gadarnhau. Mae'r adolygiad yn bwriadu edrych ar ansawdd y ddarpariaeth o dan drefniadau'r model newydd. Nid yw'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi gweithredu'r model newydd ers cychwyn yr argyfwng oherwydd yr angen iddynt addasu i ymateb i anghenion pobl ifanc, ac oherwydd bod cyfyngiadau y pandemig yn eu hatal rhag darparu rhai elfennau o'r gwasanaeth yn gyfan gwbl. Mae gwaith adfer eisoes ar droed ond nid ydym yn rhagweld y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn adfer i'r model newydd yn llawn am beth amser eto .

Casgliad

Ar waith.

6. **Cyngor Gwynedd – Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o Gyflwyno Gwasanaethau Gofal gyda Phum Tîm Ardal** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2020
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

**ATODIAD 2**

Cynigion Gwella yn codi o’r adroddiad –

1. Hirdymor - Mae'r Cyngor yn dathlu'r gwahaniaethau swyddogaethol a welir ym mhob ardal, ond nid yw'n glir a yw'r gwahaniaethau wedi'u bwriadu ai peidio neu a all y Cyngor fod yn sicr bod gan ddinasyddion ledled y sir fynediad teg at wasanaethau.

2. Hirdymor - Heb ddadansoddiad data ystyrlon i ddeall y galw a'r effaith yn nhermau angen cyfredol ac yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn defnyddio lluniau geiriol ac astudiaethau achos i ddal straeon unigolion. Byddai defnyddio data yn well yn gwella gallu'r Cyngor i lunio'r gwasanaeth ac i benderfynu a yw'n llwyddiannus ai peidio.

3. Hirdymor - Byddai saib ac adolygiad gan ystyried effeithiolrwydd, economi ac effeithlonrwydd atebion cyfredol ym mhob un o'r timau ardal, gan asesu'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim cystal, yn helpu'r Cyngor i nodi'r camau nesaf ar gyfer pob lleoliad.

4. Hirdymor - Mae angen i'r Cyngor ddatblygu model adnoddau cynaliadwy ar gyfer y Timau Ardal (pobl, lle, arian) yn y tymor canolig i'r tymor hir, gan leihau ansicrwydd.

5. Atal - Er bod yr agenda ataliol yn rhan gynhenid o weithrediad y pum tîm ardal, gallai’r Cyngor a'i bartneriaid:

a. wneud llawer mwy i annog pobl i gyflwyno'n gynharach ac elwa o fanteision ymyrraeth ataliol/gynharach.

b. gallai archwilio ymhellach botensial dadansoddeg data i fynd ati i symud ymlaen â'r agenda ataliol. Er enghraifft galw/maint, y mathau o wasanaethau sydd eu hangen a dealltwriaeth ddyfnach o achosion sylfaenol problemau y mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â hwy

6. Integreiddio - Mae swyddogion Cyngor y buom yn siarad â nhw yn mynegi ar lafar ymwybyddiaeth o effaith eu gweithgaredd ar amcanion lles eraill y Cyngor a'r nodau llesiant cenedlaethol, ond ni chaiff hyn ei gydnabod na'i gofnodi'n ffurfiol.

7. Integreiddio - Mae'r Cyngor yn ymwybodol o effaith eu gweithgaredd ar amcanion lles BIPBC, ond gallai wneud mwy i ymgysylltu ac integreiddio â rhanddeiliaid eraill a phartneriaid posibl.

8. Integreiddio - Byddai mynd ati i chwilio am a datblygu ystod lawn o bartneriaid mewnol ac allanol a helpu i gefnogi'r symudiad i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig gwirioneddol yn dod â budd.

9. Cydweithio - Mynegodd cyrff trydydd sector awydd i ymgysylltu mwy â'r Cyngor, ac roeddent yn awyddus i ddatblygu mwy o gyfleoedd i gyfrannu at yr agenda lles;

10. Cydweithio - Er na fwriedir i hybiau fod yn lleoliad corfforol i unigolion gyflwyno ynddynt, canlyniad y canolfannau o bosibl yw bod pobl yn bresennol yn y lleoliadau hynny, felly mae angen i'r Cyngor ystyried sut y bydd yn rheoli'r sefyllfa hon gan ei bod yn ymddangos nad oes presenoldeb ffurfiol yn rhai o'r hybiau.

11. Cydweithio - Mae staff yn cydnabod gwerth ychwanegol cydweithredu rhagweithiol gyda grwpiau fel meddygon teulu a'r trydydd sector, ond mae angen i'r Cyngor wneud mwy i sicrhau bod buddion o'r fath yn cael eu darparu ym mhob cymuned.

12. Cynnwys - Mae cysylltwyr cymunedol yn mapio cyfleoedd i unigolion ymgymryd â gweithgaredd a chefnogaeth yn y gymuned. Er bod cynlluniau i gyhoeddi'r wybodaeth mewn llyfrynnau, mae angen i'r Cyngor wneud y defnydd gorau o allfeydd eraill fel cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar y we.

13. Cynnwys - Awgrymodd rhai o'r cynrychiolwyr o'r trydydd sector fod ymgysylltu â'r Cyngor wedi dod yn anodd, a chyfleoedd i gyfrannu'n fwy cyfyngedig, yn bennaf oherwydd pryderon nad yw corff cydgysylltu’r trydydd sector bellach yn gwbl annibynnol ar ddarparu gwasanaethau a gallai wrthdaro wrth gynrychioli'r ystod o safbwyntiau trydydd sector.

14. Corfforaethol - Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso ei ymagwedd sy'n ‘canolbwyntio ar ddinasyddion' ‘Ffordd Gwynedd'. Wrth reoli’r negeseuon sy’n ymwneud â’i ffordd o weithio, prin ydy’r dystiolaeth neu enghreifftiau o swyddogion yn y Cyngor sydd yn hyddysg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. O ganlyniad, ni allai nifer o swyddogion ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth i’r egwyddor datblygu cynaliadwy na’r pum ffordd o weithio. Gallai'r Cyngor ddangos yn well bod 'ffordd Gwynedd ' yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn llawn drwy ddefnyddio ymadroddion allweddol o fewn ei weledigaeth gyffredinol. Byddai hyn yn dangos yn gliriach sut y caiff yr agweddau hyn eu cynnwys fel rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Mae nifer o'r cynigion gwella a amlygwyd gan Archwilio Cymru yn yr adroddiad hwn yn sylwadau yn hytrach nag yn argymhellion pendant. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi yn Ionawr 2020 ac mae'r Adran yn cydnabod bod ymateb i bandemig Covid-19 wedi bod yn flaenoriaeth yn y cyfnod ers hynny. Mae nifer o'r cynigion gwella yn perthyn yn agos iawn i gamau sydd yn cael eu cymryd dan raglenni gwaith eraill o fewn yr Adran megis datblygu'r trefniadau'r Timau Adnoddau Cymunedol, integreiddio gyda'r Bwrdd Iechyd, cefnogi gofalwyr, hyrwyddo gwaith ataliol a chyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a darparwyr. Maent hefyd yn berthnasol i flaenoriaethau megis Ffordd Gwynedd ac mae'r Adran yn parhau i ymdrechu i wreiddio'r egwyddorion hynny ymhob agwedd o'i gwaith.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae gwella trefniadau casglu a defnyddio data a gwybodaeth yn cael sylw o fewn yr Adran ar gyfer hwyluso y gwaith o ddydd i ddydd ac hefyd ar gyfer bwydo'r drefn herio perfformiad corfforaethol. Tra bod data da yn cael ei gasglu mewn rhai meysydd mae bylchau yn parhau mewn meysydd eraill oherwydd trefniadau hanesyddol, gwendidau systemau neu diffyg trefniadau aml-asiantaethol. Mae camau ar y gweill i geisio goresgyn rhai o'r problemau yma ac i sicrhau y bydd data yn y dyfodol yn sail mwy cadarn ar gyfer siapio a darparu gwasanaethau gofal.

Ymgeisir yn fwriadol i siapio gwasanaethau ar sail anghenion lleol iawn gan hefyd adlewyrchu cefnogaeth a darpariaeth cefnogol ac ataliol sydd yn yr ardaloedd lleol hynny. Nid yw'r Adran yn credu bod trefn 'one size fits all' yn addas oherwydd amgylchiadau gwahanol rhwng cymunedau. Mae'r Adran yn adlewyrchu ar gynnydd yn rheolaidd gan roi cyfle i addasu lle mae'n briodol.

Mae'r cynigion gwella a wnaed mewn perthynas ag integreiddio a chydweithio yn adlewyrchu sylwadau swyddogion yr Adran yn ystod y gwaith o baratoi'r adroddiad. Mae rhaglenni gwaith ehangach yr Adran eisoes yn cynnwys mesurau fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni y cynigion a gyflwynir gan Archwilio Cymru. Tra bod elfennau yn cael eu addasu fel yr ydym yn adlewyrchu a dysgu, ni ystyrir bod angen rhaglen waith ar wahân i ymateb i'r materion a godwyd yma.

Mae'r Adran yn rhoi blaenoriaeth uchel i sefydlu perthynas weithio gref gyda phartneriaid ar draws y sectorau ac yn ceisio eu cynnwys wrth adolygu prosesau gwaith a chynlluniau ac wrth ail-ddylunio trefniadau hynny lle bo hynny yn ymarferol. Cydnabyddir bod bob tro lle i gryfhau hyn ac fel yr ydym yn dod allan o gyfnod Covid-19 bydd cyfle i ystyried eto sut gellir adeiladu ar beth sydd yn ei le eisoes boed hynny yn addasiadau i drefniadau gwaith yr Adran neu ymysg y partneriaid.

Credir bod y Cyngor yn ymwybodol iawn o bosibilrwydd nad yw y berthynas a chyd-blethiad rhwng Ffordd Gwynedd ac amcanion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn gwbl glir i bawb. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sylfaenol yn y ddau yn bur gyson ac yn ein symud i'r cyfeiriad cywir. Dros amser, fel y bydd trefniadau yn

aeddfedu ymhellach, fe fydd negeseuon a gyfathrebir yn medru gwneud y cysylltiad yn fwy amlwg gyda'r gobaith y bydd hynny yn codi momentwm cyflawni'r cyd-amcanion.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

7. **Adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)** – Adroddiad lleol (llythyr) i Wynedd gan Estyn dyddiedig 18 Ionawr 2021.

Mae'r llythyr hwn yn ddilyniant i adroddiad thematig cenedlaethol gyhoeddwyd 15 Ionawr 2021 - Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19

Derbyniwyd lythyr gan Brif Arolygydd Estyn sy'n disgrifio'r gwaith a wnaed gan Gyngor Gwynedd rhwng Mawrth a Hydref 2020 i ymateb i heriau dysgu dros gyfnod pandemig Covid-19. Ceir ddisgrifiadau o'r gwaith a wnaed ac ambell sylw ar lwyddiant y gwaith; ni cheir argymhellion cadarn ar gyfer gweithredu i'r dyfodol. I grynhoi; nid yw'r llythyr yn amlygu materion o bryder sydd angen gweithredu arnynt.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r llythyr wedi ei rannu gyda'r Prif Weithredwr, Aelod Cabinet Addysg, Pennaeth Adran Addysg ac aelodau o Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol yr Adran Addysg i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021, ac roedd rhannau o gynnwys y llythyr yn cael eu dyfynnu yn yr adroddiad hwnnw.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r sylwadau sy'n cael eu gwneud yn y llythyr yn derbyn ystyriaeth gan yr Adran a'r Aelod Cabinet ar hyn o bryd tra'n cynllunio sut i gefnogi ysgolion a dysgwyr drwy'r cyfnod nesaf wrth i'r pandemig bellhau.

Casgliad
Ar waith

8. **Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd** - Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Mawrth 2021

Dolen i'r llythyr ar wefan Cyngor Gwynedd

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Gan nad oes rhestr na chrynodeb o gynigion gwella o fewn y llythyr, ond yn hytrach sylwadau sydd angen eu darllen o fewn eu cyd-destun, bydd angen darllen y llythyr yn ei gyfanrwydd drwy ddilyn y ddolen uchod.

Mae'r llythyr yn datgan – "Prif pwrpas y archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant."

Cyflwynwyd y llythyr, ynghyd ag adroddiad i'w gefnogi, i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd fis Mai - Adroddiad i gyfarfod Cabinet 18 Mai 2021 – gan ofyn iddynt dderbyn cynnwys y llythyr. Mae'r adroddiad aeth gyda'r llythyr yn crynhoi y prif faterion y mae'r Cyngor yn credu y dylid rhoi sylw iddynt i'r dyfodol.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae ymateb y Cyngor i'r cynigion gwella sydd yn y llythyr wedi ei gytuno yn dilyn trafodaethau:

- Tîm Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
- Panel Strategol Diogelu
- Cabinet

Cafodd y llythyr hefyd ei rannu â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r cynigion i wella elfennau o wasanaethau i gyd yn derbyn sylw o fewn rhaglenni gwaith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Roedd rhai o'r materion hyn eisoes yn derbyn sylw pan dderbyniwyd y llythyr, ac eraill wedi eu hychwanegu o'r newydd.

Mae'r cynnydd mewn perfformiad ar yr holl faterion hyn yn derbyn sylw mewn cyfarfodydd herio perfformiad (ble mae aelodau o bwyllgorau craffu yn bresennol) ac yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

**RHAN 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy'n berthnasol i Lywodraeth Leol**

**1. Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw - Digartrefedd** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Ionawr 2018
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
   - sicrhau bod eu staff yn ddigon medrus i ddelio â gofynion newydd cyfryngu, datrys problemau, negodi a dylanwadu gyda phobl ddigartref; ac
   - adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref er mwyn atal digartrefedd.

2. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
   - llunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cyswllt cynnar â defnyddwyr gwasanaethau;
   - defnyddio dulliau 'brysbennu' i nodi a hidlo unigolion sy'n gofyn am help er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion; a
   - profi effeithiolrwydd gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.

3. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi safonau gwasanaethau sy'n nodi'n glir beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud drostynt hwy eu hunain. Dylai safonau gwasanaethau:
   - gael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a syml.
   - bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys.
   - nodi'n glir rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym.
   - cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au).
   - integreiddio'n effeithiol â'r broses asesu unigol.
   - cynnig dewisiadau amgen hyfyw i wasanaethau'r awdurdod.
   - nodi'r prosesau apeliadau a chwynion. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar degwch a chydraddoldeb i bawb dan sylw a dylent fod ar gael i bawb.

4. Er mwyn gwella perfformiad cyfredol rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw drwy:

- brofi defnyddioldeb ac effeithiolrwydd y wybodaeth gyfredol ar wefannau gan ddefnyddio ein llinellau ymholi a nodir yn Atodiad 5;
- cynyddu a gwella ystod, ansawdd a chwmpas gwybodaeth ar y we; gwneud gwell defnydd o raglenni ar-lein; a
- chysylltu'n fwy effeithiol â gwybodaeth gan ddarparwyr arbenigol ac arbenigwyr cyngor, fel Cyngor ar Bopeth.

5. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai'r cytundeb hwn gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella.

6. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu dull monitro cydraddolebau, ac yn sicrhau bod eu gwasanaeth digartrefedd yn cofnodi ac yn gwerthuso data priodol yn gywir er mwyn dangos mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd tuag atynt.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Mae ein trefniadau gwaith mewn perthnasedd â digartrefedd wedi bod yn destun nifer o gyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn ddiweddar gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mawrth 2021 a’r Cabinet ar 20 Ebrill 2021. Mae argymhellion yr adroddiad wedi bod yn sail i’r ailstrwythuro o fewn ein hunedau Digartrefedd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, wedi cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ebrill.

Mae’r nifer o gyflwyniadau digartrefedd wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y pandemig a bydd yr ailstrwythuro yn ein galluogi i ymateb ac yn cynyddu ein capasiti i roi cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i’r sawl sy’n cyflwyno’n ddigartref.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Ym mis Gorffennaf 2019 bu i’r Cabinet gymeradwyo ein Strategaeth Tai. Ymhellach i hyn, cymeradwywyd ein Cynllun Gweithredu Tai gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar y 15 Rhagfyr 2020 sy’n nodi sut y byddwn yn mynd ati i gyflawni’r amcan bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd. Mae cydweithio gyda phartneriaid yn ran allweddol o wireddu’r amcan yma.

Rydym wedi cynllunio ar y cyd ag arbenigwr i sicrhau bod ein safonau gwasanaeth a’r wybodaeth yr ydym yn ei roi allan gan gynnwys ein cyfrifoldebau yn ddealladwy.

Un o brosiectau’r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw i sefydlu ‘Siop un Stop’ ar gyfer materion tai ac yn sgil hynny bydd ein gwefan a threfniadau ymgysylltu yn esblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Casgliad

Ar waith.

**2.** **Addasiadau Tai** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Chwefror 2018
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru]

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol weithio gydag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i atgyfnerthu eu ffocws strategol wrth ddarparu addasiadau drwy:
   - osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac annibyniaeth;
   - gwella ansawdd yr wybodaeth am y galw am addasiadau drwy ddefnyddio ystod eang o ddata i asesu angen, gan gynnwys ceisio a defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol; a
   - chysylltu'r system ar gyfer rheoli a chyflenwi addasiadau â pholisïau a chofrestrau tai addasedig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gartrefi a addaswyd eisoes.

2. Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn ffurfweddau hygyrch gan gynnwys Braille, ffontiau mawr, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Dylid hyrwyddo gwybodaeth yn eang drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a gwybodaeth gyhoeddedig, a hefyd drwy bartneriaid allweddol. Yn ddelfrydol, dylid cynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac alinio polisïau rhwng cyrff cyflenwi er mwyn ehangu eu cwmpas a chynyddu'r defnydd ohonynt.

3. Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio'n helaeth, a'u bod yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sydd yn ceisio cymorth (paragraffau 2.16 i 2.19). Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi symleiddio'r broses ymgeisio drwy greu un ffurflen gais gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad o fewn ardal awdurdod lleol. Dylai'r ffurflen fod ar gael drwy bartneriaid ac ar-lein.

4. Gall amrywiaeth o ffactorau achosi oedi wrth addasu (paragraffau 2.20 i 2.33). Er mwyn gwella prydlondeb wrth gyflenwi, argymhellwn y canlynol:

- bod awdurdodau lleol yn darparu neu’n defnyddio gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fynd ar drywydd eu ceisiadau DFG yn effeithlon;
- bod sefydliadau cyflenwi yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i gyflymu a symleiddio’r broses ar gyfer addasiadau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer;
- bod sefydliadau cyflenwi yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach.

5. Argymhellwn fod sefydliadau cyflenwi:
    - yn cyflwyno systemau ffurfiol er mwyn achredu contractwyr i gyflawni gwaith addasu. Dylai'r rhain gynnwys:
        - – safonau gofal cwsmeriaid fel cadw apwyntiadau, cadw'r safle'n daclus, rheoli sŵn ac ati;
        - – archwilio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW;
        - – hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da;
        - – gofyniad i ddefnyddio cynlluniau gwarant;
        - – sicrhau y delir yswiriant digonol; a
        - – gofyn am eirdaon.
    - defnyddio cytundebau fframwaith a chontractau drwy bartneriaeth i gyflenwi addasiadau;
    - mynd i'r afael â gwendidau wrth roi addasiadau ar gontract, diweddaru'r Rhestr Cyfraddau a ddefnyddir i roi gwaith allan ar dendr a chynnal ymarferion tendro cystadleuol er mwyn cefnogi gwerth am arian wrth roi gwaith allan ar gontract;
    - datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractau drwy:
        - – bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth ymgeiswyr/tenantiaid; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;
        - – gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a
        - – rhoi adborth ffurfiol i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy'n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolygol a chwblhau ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

6. Argymhellwn y dylai awdurdod lleol gydweithio ag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i ddatblygu a gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Y nod fydd cynyddu hyd yr eithaf y defnydd a'r budd yn gysylltiedig ag addasiadau o ran cefnogi annibyniaeth drwy gyfuno adnoddau, cydleoli staff a chreu timau cyflenwi integredig.

7. Er mwyn gwella'r defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar addasiadau gyda chyrff iechyd, argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi gytuno ar y cyd ar gyd-safonau gwasanaeth ar gyfer cyflenwi addasiadau ym mhob ardal awdurdod lleol, a chyhoeddi'r cyd-safonau hynny. Dylid nodi'n glir yn y safonau gwasanaeth sut y bydd pob asiantaeth yn mynd ati i gyflenwi addasiadau, ac yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Dylai Safonau Gwasanaeth:
    - fod mewn iaith hygyrch sy'n hawdd ei deall;
    - bod yn fanwl gywir ynghylch yr hyn y gall pobl/na all pobl ddisgwyl ei dderbyn;
    - cael eu llunio ar y cyd i gynnwys yr holl wasanaethau addasu o fewn ardal;
    - nodi cymhwysedd ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu, y prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu; a
    - chynnig yr opsiynau posib a'r dewisiadau eraill yn lle addasu, gan gynnwys cysylltu â chofrestrau tai addasedig i wneud y defnydd gorau posib o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu Tai i Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Rhagfyr 2020 syn cynnwys ein ymrwymiad i addasiadau tai dros y blynyddoedd nesaf. Bu iddo gael ei drafod mewn manylder yn y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2020 yn ogystal.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid (adrannau’r Cyngor, Bwrdd Iechyd, Gofal a Thrwsio) sy’n cwmpasu’r argymhellion hyn.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Tai gan Gabinet Cyngor Gwynedd gyda £7.2m wedi ei glustnodi dros 6 mlynedd ar gyfer DFG a £600k ar gyfer addasiadau llai (Enable).

Mae’r argymelliadau wedi eu hystyried wrth lunio ein trefniadau gwaith. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid megis Gofal a Thrwsio, adrannau eraill y Cyngor, â’r Bwrdd Iechyd, gyda cyfeiriadau yn cael eu cyfeirio drwy Therapyddion Galwedigaethol yr Awdurdod.

Mae gennym systemau priodol mewn lle i weinyddu’r addasiadau tai. Mae ein contractwyr wedi eu gwirio drwy broses cadarn ac rydym ar hyn o bryd yn y broses o sefydlu fframwaith newydd o gontractwyr cymwys ac achrededig i weithredu’r addasiadau. Rydym yn penodi asiantaethau i hwyluso’r broses ar gyfer ymgeiswyr mewn achos o addasiadau sylweddol.

Un o brosiectau’r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw i sefydlu ‘Siop un Stop’ ar gyfer materion tai ac yn sgil hynny bydd mynediad at y

gwasanaeth yma drwy ein gwefan a threfniadau ymgysylltu yn esblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Casgliad
Ar waith.

**3. Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Ebrill 2018
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru]

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau y gall pobl gyrchu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Er mwyn bod yn ystyriol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth arall, argymhellwn y dylai cyrff cyhoeddus gynnal adolygiad rheolaidd er mwyn canfod pa mor hygyrch yw eu gwasanaethau i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith, gan gynnwys pobl fyddar sydd yn defnyddio iaith arwyddion. Gellir defnyddio ein rhestr wirio yn rhan o'r asesiad hwn.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r cynnig gwella wedi derbyn sylw wrth ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Dyma'r gwaith sydd wedi digwydd yn y maes ers Ebrill 2018:

- Yn Adroddiad Blynyddol 2017-18 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 (a dderbyniwyd gan y Cabinet ym mis Medi 2018) ychwanegwyd Amcan ychwanegol sef "Gwella ein darpariaeth gwybodaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf".
- Wrth baratoi Amcanion ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 (fabwysiadwyd gan y Cabinet fis Medi 2020) penderfynwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai gweithio ar Amcan i gasglu gwybodaeth am anghenion a dyhead lleol (sef Amcan 2 y Cynllun). Cynlluniwyd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn casglu'r wybodaeth ond bu'n rhaid oedi'r gwaith rhywfaint oherwydd pandemig Covid-19, gan nad oedd yn bosib cwrdd wyneb yn wyneb, oedd yn ei gwneud yn llawer anoddach i ni dargedu grwpiau o ddefnyddwyr megis y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith, a phobl fyddar..

- Cynhaliwyd holiadur ar-lein rhwng Chwefror a Mai 2021 i ganfod y rwystrau sy'n wynebu ein defnyddwyr gwasanaeth wrth ymwneud efo'r Cyngor a byddwn yn parhau i wneud hyn yn gyson yn y dyfodol. Mae bwriad hefyd i wneud gwaith pellach rhwng Medi a Rhagfyr gan dargedu grwpiau penodol a defnyddio dulliau gwahanol o ymgysylltu.
- Mabwysiadwyd Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad gan y Cabinet ar 6 Gorffennaf 2021. Mae'n cynnwys yr egwyddor o ddarparu gwybodaeth mewn fformatau amgen a byddwn yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â chynnwys y Polisi rhwng Medi 2021 ac Awst 2022. Er mwyn helpu i wireddu hyn rydym wrthi'n diweddaru gwybodaeth am sut i ddarparu fformatau amgen ar fewnrwyd y Cyngor, gyda'r gwaith yn cael ei gyflawni rhwng Awst a Hydref 2021.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

**4. Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mai 2018
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol barhau i ganolbwyntio ar atal pobl rhag mynd yn ddibynnol ar leoliadau drutach mewn cartrefi gofal drwy ddarparu cymorth effeithiol yn y cartref ac amrywiaeth o lety camu ymlaen drwy wneud y canlynol:
   - gwella'r modd y caiff gweithgarwch atal ei werthuso er mwyn i awdurdodau lleol ddeall beth sy'n gweithio'n dda a pham.
   - gan ddefnyddio mapio gwasanaethau atal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cwmpasu asiantaethau eraill a darparwyr gwasanaethau.
   - gwella prosesau cyfeirio at help ychwanegol er mwyn i ofalwyr a rhwydweithiau cymorth allu bod yn fwy cydnerth a hunan-ddibynnol. Dylai hyn gynnwys annog gofalwyr i lunio cynlluniau gofal hirdymor er mwyn cynnal a diogelu llesiant eu dibynnydd.
   - rhannu gwaith dadansoddi risg a data cynllunio hirdymor ag awdurdodau lleol eraill, darparwyr gwasanaethau a phartneriaid er mwyn cytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r ystod o opsiynau.

2. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wella eu dull o gynllunio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu drwy adeiladu ar asesiadau poblogaeth y Byrddau

Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chytuno ar flaenoriaethau yn y dyfodol.

3. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i integreiddio trefniadau comisiynu gyda phartneriaid a darparwyr ac ystyried gwaith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol drwy wneud y canlynol:
   - deall y ffactorau sy'n atal neu'n rhwystro integreiddio pellach;
   - gwella ansawdd cydgynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu (gweler hefyd baragraffau 3.11 i 3.14);
   - sefydlu modelau buddsoddi a strwythurau ariannol cynaliadwy, trefniadau cydgynllunio'r gweithlu a dull cyllidebu amlflwydd; a
   - datblygu fframweithiau llywodraethu a rhannu data priodol gyda phartneriaid lleol allweddol sy'n cynnwys proses glir ar gyfer rheoli risg a methiant.

4. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn y broses o gynllunio gofal a chytuno ar lwybrau at fwy o annibyniaeth drwy wneud y canlynol:
   - cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn gyson yn y broses o ysgrifennu, monitro a datblygu cynlluniau gofal;
   - cynnwys gofalwyr a grwpiau eirioli yn systematig yn y gwaith o werthuso ansawdd gwasanaethau;
   - cynnwys pobl ag anableddau dysgu mewn prosesau caffael; a
   - sicrhau y caiff gohebiaeth ei hysgrifennu mewn iaith briodol sy'n hawdd ei deall er mwyn gwella dealltwriaeth o ganllawiau a gwybodaeth a chynyddu eu heffaith.

5. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr, y trydydd sector a chyflenwyr er mwyn deall heriau a rhannu data ac arbenigedd drwy wneud y canlynol:
   - gwella ansawdd, ystod a hygyrchedd gwybodaeth dendro; a
   - gweithio gyda darparwyr i lywio marchnadoedd lleol drwy feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r cyfleoedd, y risgiau a'r blaenoriaethau o ran darparu gwasanaethau anableddau dysgu yn y dyfodol.

6. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol ddatblygu set fwy priodol o ddangosyddion perfformiad a mesurau llwyddiant sy'n ei gwneud hi'n haws monitro a dangos effaith gweithgarwch gwasanaethau drwy wneud y canlynol:
   - llunio mesurau a dangosyddion perfformiad gwasanaethau a chontractau ar y cyd â darparwyr gwasanaethau, pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr;
   - sicrhau bod gan gomisiynwyr ddigon o wybodaeth am gostau a digon o wybodaeth ansoddol am yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau a gofal;

- rhoi data i gomisiynwyr er mwyn dangos manteision ariannol hirdymor dewisiadau comisiynu, mae hyn yn cynnwys meddu ar y systemau a’r dechnoleg briodol;
- integreiddio’r canlyniadau a’r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o gynlluniau gofal mewn mesurau perfformiad;
- gwerthuso gwahanol fathau o ymyriadau a lleoliadau ac wedyn dysgu ohonynt; a
- cynnwys gwasanaethau anableddau dysgu yn adolygiadau craffu awdurdodau lleol er mwyn herio perfformiad a nodi gwelliannau.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Roedd y mater yma yn cael sylw cyn i'r gwaith cenedlaethol yma gael ei gomisiynu. Mae’r maes yma wedi bod yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd mewnol dros gyfnod o flynyddoedd gyda gwaith penodol yn cael ei wneud i sefydlu darlun clir o anghenion llety yn y maes anabledd dysgu. Mae ffocws y trafodaethau yma wedi bod ar ganfod a rhaglennu ymyraethau lleol i ymateb i'r galw yn hytrach nag ar faterion strategol. Mae argymhellion cyffredinol yr adroddiad yma wedi bod yn rhan o gyd-destun y trafodaethau mewnol yma.

Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Gorffennaf 2021.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae’r Adran wedi edrych ar y wybodaeth a’r data lleol sydd yn rhoi darlun cywir i geisio rhagweld y gwir alw am lety i unigolion ag anableddau dysgu yng Ngwynedd. Mae hyn wedi cynnwys dadansoddiad o anghenion unigolion sy’n derbyn gwasanaeth a phobl ifanc yn yr oed trosglwyddo. Mae’r Adran hefyd wedi parhau i adolygu achosion all-sirol gyda’r amcan tymor hir o geisio darparu cefnogaeth iddynt yn agos at adref lle mae hynny yn ymarferol bosib.

Mae rhaglen waith yr Adran yn cynnwys edrych ar ddarpariaeth tai yn y gymuned a darpariaeth o leoliadau mwy arbenigol ar gyfer diwallu anghenion mwy dwys. Gyda'r ddwy elfen yma mae’r Adran yn cyd-weithio'n agos gyda’n partneriaid sydd yn cynnwys cymdeithasau tai, darparwyr gwasanaethau gofal ac wrth gwrs unigolion a’u teuluoedd. Mae’r Grŵp Trawsffurfio Gwasanaethau Anableddau Dysgu sydd yn cynnwys darparwyr a chynrychiolaeth gofalwyr hefyd wedi bod yn cyfrannu.

Mae trafodaethau ar y gweill i wella darpariaeth llety a gofal yn Y Frondeg, Caernarfon gyda bwriad hefyd i ehangu’r ddarpariaeth ar sail model newydd a chreu cyfleon i hwyluso unigolion i gael gofal yn nes at adref.

Mae buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud yn Nhan y Marian, Pwllheli i gynnig darpariaeth llety gofal ysbaid i gefnogi gofalwyr a’u teuluoedd ac mae buddsoddiad pellach yn cael ei wneud i uwchraddio y cartref ei hun.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r cymdeithasau tai, yr Adran Tai ac Eiddo a darparwyr gofal i uwchraddio llety presennol a chynnig darpariaeth pwrpasol newydd ar gyfer unigolion sydd eisoes yn cael eu cefnogi ac eraill all gael budd o ofal yn y gymuned.

Mae'r angen ar gyfer darpariaeth llety addas i unigolion ag anableddau dysgu a/neu anableddau corfforol yn ystyriaeth greiddiol wrth siapio cynlluniau ar gyfer tai cymdeithasol ac ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau posib Hwb Iechyd a Gofal Dyffryn Nantlle ac ail-ddatblygu safle Penrhos ger Pwllheli.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

**5. Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig (gweler paragraffau 2.2 i 2.9 a 2.28 i 2.31). Argymhellwn fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwyneb trwy:
   • asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru ac adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a
   • sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gweledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gydgynhyrchwyd gan bartneriaid, ar y cyd â dinasyddion, i roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt.

2. Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau cyhoeddus angen meddwl yn wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). Argymhellwn fod cynghorau yn darparu ymateb sy'n fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu trwy:
   • sicrhau bod gan gomisiynwyr gwasanaethau ddata ar gostau a gwybodaeth ansoddol ar y dewis llawn o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau; a
   • defnyddio barn dinasyddion am ba mor fforddiadwy, hygyrch, digonol, derbyniol ac 'ar gael' y mae gwasanaethau'r cyngor i deilwra sut i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau.

3. Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). Argymhellwn fod cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy:
   • weithio gyda chyrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol;
   • darparu allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y rheini sy'n wynebu rhwystrau niferus sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael gwaith;
   • gwella ac adnabod rôl cynghorau tref a chymuned trwy fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cefnogi i wneud mwy;
   • annog ymagwedd fwy integredig at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy sefydlu hybiau cymunedol sy'n rhychwantu gwasanaethau cyhoeddus, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
   • galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo, a sicrhau bod y systemau cywir ar waith i wneud i bethau ddigwydd; a
   • gwella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, hyfforddiant a choetsio ac annog unigolion i wirfoddoli.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Nid yw'r adroddiad wedi ei drafod yn nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Ymateb i Gynnig Gwella 1 – Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn asesu cyflwr ein cymunedau fel rhan o'r Asesiadau Llesiant 2021/22. Bydd hyn yn gyfle i holl bartneriaid y BGC ddatblygu dealltwriaeth o'r materion llesiant sy'n effeithio ar ein cymunedau. Bydd y BGC yn rhoi ystyriaeth i gamau cydweithredol er mwyn ymateb iddynt trwy ei Gynllun Llesiant fydd i'w gyhoeddi yn 2023.

Mae'r BGC wedi cymryd i ystyriaeth y cwestiynau o offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru a phe byddai'r BGC yn cyflwyno newid polisi byddent yn gallu gwneud defnydd o'r offeryn.

Cynigion gwella 2 a 3 - mae Adran Economi a Chymuned wedi gweithio yn agos iawn gyda Arloesi Gwynedd Wledig i greu hybiau cymunedol. Ar hyn bryd mae 'gofod gwneud', 'caffis trwsio' a chyfleusterau 'hot desking' yn cael eu sefydlu mewn 8 cymuned yn y sir. Mae'r adnoddau yma'n plethu i mewn gyda gweithgareddau ac adnoddau sydd eisoes yn eu lle.

Yn hanesyddol mae rhai o asedau'r Cyngor wedi eu trosglwyddo i gymunedau neu grwpiau cymunedol – e.e Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu wedi ei drosglwyddo i Antur Nantlle i'w rhedeg fel busnes 'bunk house'; hen lyfrgell yn Neiniolen wedi cael ei drosglwyddo i Menter Fachwen.

Drwy waith Arloesi Gwynedd Wledig a Rhaglen LEADER mae gweithdai penodol wedi bod yn cael eu cynnal i gymunedau sydd yn adnabod heriau e.e sut i gadw'r Gymraeg yn gryf yn ardal Nefyn; gweithdai yn ymwneud a thaclo problem gwastraff yn Nyffryn Nantlle. Mae rhaglen hefyd yn cael ei datblygu i gynnig sesiynau gwybodaeth/hyfforddiant i gymunedau ar sut i adnabod her a sut i ymateb iddynt drwy edrych ar egwyddorion o fod yn arloesol.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio ar greu Cynllun Adfywio newydd ar gyfer y sir. Mae'r sir wedi ei rhannu i 13 ardal ac mi fydd cynllun ardal lleol yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Rydym yn y cam cyntaf o ymgynghori gyda grwpiau cymunedol gweithredol a chynghorau cymuned a thref er mwyn canfod barn ar y themâu sy'n bwysig i gymunedau a sut gellir adeiladu ar fodel o gydweithio er mwyn gweithredu ar y blaenoriaethau hynny.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn ystyried anghenion cymunedau gwledig wrth gynllunio ei holl waith, ac mae Ffordd Gwynedd a gofynion y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol yn golygu y byddwn yn cofnodi sut mae anghenion cymunedau gwledig yn cael eu cyfarch. Mae gwaith ar droed i ddiweddaru'r ffurflen asesu effaith cydraddoldeb er mwyn cyfarch hyn.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

## 6. **Darparu Gwasanaeth Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018

Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cynghorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. At hynny, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.

2. Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

• nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
• gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
• nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;
• sicrhau bod eu polisïau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo,
cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a
• cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Gweler sylwadau ar gyfer adroddiad rhif 5 uchod.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Gweler sylwadau ar gyfer adroddiad rhif 5 uchod. Mae yna nifer fawr o gynlluniau i gefnogi cymunedau gwledig ar waith, ac mae rhai o'r rhain yn ymwneud â darparu adnoddau sy'n addas i bwrpas. Nid yw hynny bob tro yn golygu trosglwyddo asedau sy'n eiddo i'r Cyngor, ond fe ddaw'r anghenion yn fwy amlwg wrth gwblhau'r gwaith ar lunio Cynlluniau Adfywio.

<u>Casgliad</u>

Ar waith.

**7. Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru]

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:
   • sicrhau bod ganddynt weledigaeth eglur sy'n trin data fel adnodd allweddol;
   • sefydlu safonau a chodau data corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;
   • ymgymryd ag archwiliad i bennu'r data sy'n cael eu cadw gan wasanaethau ac i nodi unrhyw gofnodion a cheisiadau am wybodaeth dyblyg; a
   • chreu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau.

2. Er ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi'r angen iddynt hefyd rannu data â phartneriaid er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Er nad yw hyn yn golygu bod y ddeupeth hyn yn annibynnol ar ei gilydd, mae ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau diogelu data yn golygu nad yw rhai swyddogion yn rhannu data, hyd yn oed lle bo cytundeb mewn bodolaeth i roi gwybodaeth i bartneriaid. Rydym yn argymell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:

   • darparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant rannu data ai peidio, a'r math o ddata y gallant eu rhannu; ac
   • adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.

3. Yn Rhan 3 o'n hadroddiad, rydym yn dod i gasgliad bod adnoddau digonol a gallu digonol yn heriau parhaus. Fodd bynnag, heb uwchsgilio staff i wneud gwell defnydd o ddata, mae awdurdodau yn colli cyfleoedd i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd.
   Rydym yn argymell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:
   • dynodi staff sydd â rôl yn y broses o ddadansoddi a rheoli data i gael gwared ar ddyblygu, ac i ryddhau adnoddau i feithrin a datblygu'r gallu i ddefnyddio data; a
   • buddsoddi yn sgiliau dadansoddi, cloddio a segmentu data y staff, a chefnogi eu datblygiad.

4. Mae Rhan 4 o'n hadroddiad yn amlygu bod gan awdurdodau ragor i'w wneud mewn perthynas â chreu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac o ran datgloi potensial y data y maent yn eu cadw. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:
   • gosod safonau adrodd ar ddata i sicrhau bod y safonau data gofynnol yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau; a
   • sicrhau bod mwy o ddata agored ar gael.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion gwella eu trafod yn y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, a'r mater wedi'i gynnwys yng Ngofrestr Risg y Cyngor (lefel Llywodraethu): "Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol".

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cafodd Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-26 ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Ionawr 2021. Mae hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn gosod allan cyfeiriad y Cyngor ym maes gwybodaeth dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys y materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

**8. Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Mehefin 2019
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Bod awdurdodau cynllunio lleol:
   (i) yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben

   (ii) yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio

2. Gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i:

   (i) datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd

3. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:

   (i) adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r argymhellion wedi eu trafod fel rhan o'r gwaith o gynnal Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd, ac adolygu'r cynllun dirprwyo. Gweler y manylion wrth ddisgrifio'r 'cynnydd' isod.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

1. Rydym eisoes yn cynnal y Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, sesiynau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, cynnig cyngor / trafodaethau gyda datblygwyr yn rhithiol.
   Byddwn yn ystyried cyfleoedd i gyfrannu tuag at Gynlluniau Lle os ydynt yn codi, ond nid oes cyfleoedd / cynigion wedi codi hyd yma. Nodir nad oes gofyn statudol i baratoi Cynlluniau Lle.
2. Rydym wedi sefydlu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda Chyngor Sir Ynys Mon ers 2011, ac wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn 2017. Ers hynny mae 9 Canllaw Cynllunio Atodol (ar y cyd) wedi eu mabwysiadu.
3. Adolygwyd y cynllun dirprwyo cynllunio yn dilyn Ymchwiliad Craffu yn 2017 gyda'r cynllun newydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau cyn ei gytuno gan y Cyngor ym mis Mai 2018. Mae adroddiad pellach wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn 2020 i roi diweddariad ar weithrediad y Cynllun Dirprwyo ac i egluro'r trefniadau ar gyfer ymgynghori gyda cheisiadau ac fe gefnogwyd yr argymhellion a'r trefniadau gwaith cysylltiedig.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

**9. Y 'Drws Blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Medi 2019
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymell y canlynol - awdurdodau lleol:
   - adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng';
   - gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu;

- sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf;
- ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol.

2. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymell y canlynol - awdurdodau lleol:
    - mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau;
    - cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg;
    - gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a
    - gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Mae'r materion a godwyd yn yr adroddiad yma wedi bwydo mewn i drafodaethau ar gynlluniau datblygu a thrawsffurfio ehangach yr Adran ac mae hynny wedi ac yn cael sylw trwy raglenni gwaith ac adroddiadau eraill. Mae rhai ohonynt hefyd wedi bod yn rhan o adroddiadau sydd wedi eu cyflwyno I'r Pwyllgor Craffu Gofal. Dylid er enghraifft, nodi bod yr angen i gryfhau a gwella y drws ffrynt i wasanaethau gofal a datblygiad gwasanaethau ataliol wedi cael cryn sylw trwy y Bwrdd Cefnogi Pobl.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae'r materion wedi ac yn cael sylw fel rhan o waith ehangach yr Adran ac yn wir trwy ymdrechion corfforaethol ar sail blaenoriaethau'r Bwrdd Cefnogi Pobl. Mae'r gwaith adrannol yn cynnwys y gwaith ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i sefydlu a datblygu'r Timau Adnoddau Cymunedol a'r gwaith trawsffurfio sylweddol sydd ar y gweill. Mae hefyd yn plethu gyda'r Prosiect Gofal Cartref. Ystyrir bod y gwaith i wella'r drws ffrynt a datblygu gwasanaethau ataliol yn greiddiol i'r elfennau yma.

<u>Casgliad</u>

Wedi ei gwblhau.

**10.** **<u>Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</u>** – Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2019
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru]

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Rydym yn argymell bod BGCau:

- yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol;
- yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd;
- yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac
- yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbwn dinasyddion a rhanddeiliaid.

I wella trefniadau craffu, rydym yn argymell:

- bod BGCau a chyrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a
- bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o randdeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.

I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell:

- bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol;
- bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys:
  – cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a
  – rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Trafodwyd yr argymhellion yn ystod cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar 11eg Rhagfyr 2019 ac mae'r canlyniad yn cael ei ddisgrifio yn y 'cynnydd' isod. Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgorau craffu canlynol fod y BGC yn trafod yr argymhellion:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd : 5ed Rhagfyr 2019
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn: 12fed Tachwedd 2019.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ymateb y BGC gan ddilyn trefn y pwyntiau bwled uchod:

- Mae tîm cefnogi'r BGC eisoes wedi rhoi ystyriaeth ac yn cydnabod yr angen am Asesiadau Effaith Iaith a Chydraddoldeb. Bydd yr asesiadau effaith yn cael eu datblygu os fydd prosiectau yn cael eu cyflwyno i sylw'r BGC fydd yn argymell newid polisi neu wasanaeth, a hynny er mwyn mesur a deall effaith y penderfyniadau fydd yn cael eu gwneud gan y BGC.
- Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wefan sy'n weithredol o dan yr enw: https://www.llesiantgwyneddamon.org . Mae manylion o gyfarfodydd y Bwrdd a'r cofnodion wedi eu cynnwys ar y wefan.
- Mae gwaith ar Asesiadau Llesiant y BGC yn cael ei gynllunio yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae tîm cefnogi'r BGC yn adnabod cyfle fan hyn i wneud mwy o ddefnydd o'u dulliau cyfathrebu er mwyn rhoi gwybod i'n dinasyddion am waith a chynnydd y BGC. Bydd arbrofi efo'r dulliau – fe dywedoch chi ac fe wnaethom ni er mwyn dangos yr hyn ddywedyd gan ein dinasyddion wedi cyfrannu at ein penderfyniadau.
- (2 bwynt bwled craffu) - Mae'r BGC yn cydweithio efo Pwyllgorau Craffu Gwynedd ac Ynys Môn ar amserlenni craffu (alinio â chyfarfodydd y BGC) a'r meysydd i'w craffu.
- (capasiti) – Mae'r BGC wedi bod yn arweiniol iawn mewn perthynas â'r weithred dan sylw. Mae is-grŵp Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru, sy'n atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, ac yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol.
- Mae'r ddogfen 'Cymru Iachach' yn llywio trefniadau llywodraethu a chynlluniau'r Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Wynedd ac Ynys Môn.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

**11.** **Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith** – Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Tachwedd 2019
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu, er bod gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth gynyddol am wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r galw amdanynt, bod bylchau sylweddol yn dal i fodoli a bod ymgysylltiad â goroeswyr a dioddefwyr i adolygu a datblygu gwasanaethau yn anghyson. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod gwaith i asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus yn cael sylw o'r newydd a bod y modd y caiff pobl eu cynnwys yn cael ei ehangu a'i wella i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn creu darlun mwy cywir o'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau ac adnabod bylchau.

2. Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut y mae dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn ei chael yn anodd ymgodymu â system dameidiog o ran y gwasanaethau a ddarperir. I gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus:
   - yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o gyfryngau am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr; ac
   - yn creu llwybr ar y cyd i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ar gyfer dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn hysbysebu trefniadau mynediad yn eang

3. Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen i sefydliadau rannu data gyda phartneriaid hefyd i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well. Rydym yn argymell bod awdurdodau:
   - yn sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr yn cael hyfforddiant priodol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
   - yn darparu hyfforddiant diweddaru ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data, a pha ddata y gallan ac na allan ei rannu; ac
   - yn adolygu ac yn diweddaru protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data

4. Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er bod peth cynnydd da wedi cael ei wneud gyda gweithio'n rhanbarthol, nad oes ysgogwyr priodol yn eu lle bob amser i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. I sicrhau bod manteision rhanbartholi'n cael eu gwireddu, rydym yn argymell bod asiantaethau darparu (awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector) yn adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau'n well a chynyddu i'r eithaf yr effaith gadarnhaol y gallant eu cael er ddioddefwyr a goroeswyr.

5. Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn amlygu nad yw'r mecanweithiau cyllido cymhleth a byrdymor, diffyg data ac ymgynghori annigonol â rhanddeiliaid, o gymorth i gomisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn modd cynaliadwy. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau comisiynu i:
   - gael gwared ar ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng gwahanol ddulliau yn yr awdurdod a chyda phartneriaid;
   - rhesymoli trefniadau gweinyddu i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian;
   - symleiddio a safoni trefniadau comisiynu i leihau baich gweinyddu ar yr holl bartïon; a
   - phennu mesurau perfformiad, targedau a meincnodau priodol i farnu effaith a deilliannau gwasanaethau a gomisiynir.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>

Yr adroddiad a'r argymhellion wedi'u trafod yn y Grŵp Gweithredol Diogelu a'r Panel Strategol Diogelu gan arwain at y camau gweithredu/cynnydd sy'n cael ei ddisgrifio isod.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>

Mae'r isod wedi eu rhifo i gyfateb i'r cynigion gwella uchod:

1. Mae ymdrechion i fapio'r holl ddarpariaeth yn rhanbarthol yn digwydd ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl diweddariad mewn cyfarfod grwp llywio yn fuan.
2. Mae gwybodaeth ynglŷn a'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael wedi ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn rheolaidd. Hefyd, mae gwybodaeth cynhwysfawr ynglŷn â gwasanaethau cymorth lleol ar y dudalen 'Diogelwch Cymunedol' ar wefan y Cyngor.
3. Mae hyfforddiant diogelu data wedi'i drefnu i bob aelod o staff yr Adran Oedolion a Llesiant. Mae'r mater o bryd y mae'n gywir i dorri cyfrinachedd er mwyn diogelu yn rhan bwysig o'r hyfforddiant yma.
   Mae pecyn e-ddysgu Trais yn y Cartref ar gael i staff. Yn 2019, gofynnwyd i holl aelodau staff Cyngor Gwynedd gwblhau'r e-fodiwl.

Cynnydd i roi ar waith y fframwaith hyfforddi cenedlaethol – Ask and Act. Erbyn hyn, mae 4 o hyfforddwyr wedi'i hyfforddi yn ystod cyfnod 2018-2020 (meysydd Oedolion, Addysg a Cefnogaeth Gorfforaethol). Hefyd, datblygwyd rhaglen hyfforddi Gofyn a Gweithredu (*Ask and Act*) newydd 'o bell' (rhithiol), a bu'n rhaid disgwyl i'w chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

4. Mae'r asiantaethau perthnasol wedi adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol, erbyn hyn mae cyfarfodydd MARAC (*Multi-Agency Risk Assessment Conference)* wythnosol yn ogystal a rhai misol, ac mae'r Cyngor hefyd yn rhan o grwpiau llywio lleol a rhanbarthol. Yn rhanbarthol, mae'r Vulnerability and Exploitation Board yn arwain ar faterion trais yn y cartref a diogelu, a'r gwaith erbyn hyn yn y prif-lif.
5. Argymhelliad rhif 5 yn dod o dan y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol. Nid oedd cyllideb i gomisiynu gwasanaethau yn fewnol. Mae'r Uwch-Swyddog Diogelwch Cymunedol yn eistedd ar y bwrdd yma o ran dylanwadu gwariant.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

12. **Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb** – Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Gorffennaf 2020
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru]

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Dylai cyrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. Rydym yn argymell bod cynghorau a'u partneriaid:

• yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyfredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol;

• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a

• chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.

Gan bod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion acíwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng. Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol. Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrio anghenion cymhleth i wella sut y

gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol (caiff yr offeryn ei nodi yn Atodiad 2).

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae digartrefedd a chysgu allan yn cael ei drafod mewn nifer o gyfarfodydd gan gynnwys ein Panel Gweithredu Cynllunio Argyfwng a cyfarfodydd mewnol a thrawsadrannol eraill wrth gydweithio i sicrhau nad oes neb yn cysgu allan yng Ngwynedd.

Mae argymhellion yr adroddiad wedi bod yn sail i'r ailstrwythuro o fewn ein hunedau Digartrefedd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, wedi cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ebrill, ac wedi cael sylw manwl y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2021, â'r Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth 2021.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rydym yn cydweithio gyda nifer o asiantaethau trydydd sector i roi cefnogaeth i unigolion. Rydym yn dadansoddi data er mwyn adnabod tueddiadau a byddwn yn adeiladu ar y gwaith hyn ar ôl penodi swyddog data newydd i gefnogi'r adran, sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.

Mae'r argymhellion wedi bod yn berthnasol i'r ailstrwythuro yn ein hunedau digartrefedd, ac rydym yn cydweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd gan gynnwys cyd-gyflogi aelod o staff arbenigol i roi cefnogaeth iechyd meddwl i unigolion.

Casgliad

Ar waith.

**13. Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2020
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae ymgymryd â gweithgareddau masnacheiddio yn gofyn i gynghorau feddu ar allu digonol a'r sgiliau cywir, ac i fod â systemau cadarn ond ystwyth ar waith. Argymhellwn fod cynghorau'n defnyddio'n hofferynnau hunanwerthuso i ddatblygu strategaeth sy'n gweddu i'r graddau y maent am ddilyn y syniad o fasnacheiddio.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae trafodaethau ar fasnacheiddo wedi eu cynnal fesul achos perthnasol – gweler isod. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu cynnal ymysg uwch-swyddogion, y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae Cyngor Gwynedd wedi masnacheiddio mewn meysydd megis Ymgynghoriaeth Gwynedd a Byw'n Iach, ayb, ond heb fentro i fenthyg er mwyn buddsoddi mewn prosiectau eraill megis eiddo manwerthu lleol.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.

**14. Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru** - Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Hydref 2020
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Dylai pwyllgorau archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunanarfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.

2. Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, dylai'r cyrff cyhoeddus weithredu ar y rhain cyn gynted â phosibl.

3. Dylai'r holl gyfranogwyr fod yn ymwybodol o risgiau o dwyll sy'n dod i'r amlwg, e.e. oherwydd COVID-19, a chymryd camau priodol i'w hatal a'u canfod.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Byddem yn adrodd fel bo angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am risgiau o dwyll penodol. Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn adroddiadau penodol ar y rhain.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Yn ddiweddar, nid yw canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi amlygu twyll o sylwedd mewn unrhyw faes.

Casgliad

Wedi ei gwblhau.